


Addysgu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Model 1-Thema Seiliedig


- Defnyddir Un thema ganolog i'r model yma a gellir ymweld ag amrywiaeth o bynciau o fewn un thema.
- Amlyga Barnes (2015) bod rhaid dewis themâu perthnasol a dyls i'r dysgwyr a'i fod yn perthyn mewn rhyw fodd i adnoddau gwerthfawr y gymuned.
- Pwysleisir gan Estyn (2018) bod trefn gwersi nifer o ysgolion yn rhu traddodiadol ac yn glynu wrth iaith a mathemateg yn y bore ac yna ffocysu ar thema yn y prynhawn yn unig- wrth addysgu mewn modd thematig trawsgwricwlaidd gall ddisgyblion wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy thema.
- Mae'r thema a gwelir isod yn cynnig cyfle perffaith i ddatblygu elfen o'r cwricwlwm Cymreig o fewn thema gan eu bod hwy'n astudio'u hardal leol yn enwedig yr agwedd 'Ddiwylliannol' wrth iddynt **"Datblygu gwybodaeth am eu cymunedau'u hunain ynghyd â'u gwerthoedd a'u traddodiadau"** (ACCAC, 2003, tud.4).



- Manteisioir ar y cyfle bod un thema yn medru cynnig opsiynau eang am ddysgu safonol mewn sawl maes dysgu sy'n arbed ailadrodd ac amser (Barlow, C. a Brook, A. 2010)
- Mae plant yn fwy tebygol o ddangos ymglymiad ac ymroi i'r gweithgaredd gan fod y thema o ddiddordeb iddynt ac yn fwy perthnasol
- Cyfyngiadau**
- Gall dysgwyr fod yn ansicr ac wedi eu drysu wrth fod ynghlwm â gweithgaredd lle nad yw'r sgil maent yn datblygu yn amlwg
- Caiff rhai pynciau eu cynnwys o fewn y thema er mwyn rhoi sylw i'r pwnc ond nid yw wir yn cryfhau dealltwriaeth y dysgwyr o'r thema

'Dyfodol Llwyddiannus'

- Mynega Donaldson (2015) ei ddyhead a'i weledigaeth yn ei ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' am addysgu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm a pham bod angen rhoi mwy o bwyslais ar yr agweddau yma wrth gyflwyno cwricwlwm newydd i'n hysgolion.
- Pwysleisir ganddo fod angen rhoi strwythur i'r cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i **"ddatblygu lefelau cymhwysedd uchel yn yr agweddau hynny a'u bod yn cael cyfleoedd aml i'w datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm"** (Donaldson, 2015, tud. 40). Mae'n allweddol datblygu medrau dysgwyr yn y meysydd yma er mwyn galluogi iddynt gyfrannu i'r byd modern yn hyderus ac yn llwyddiannus.
- Wrth ddatblygu'r sgiliau yma ar draws y cwricwlwm, mae hyn yn rhoi cyd-destun perthnasol a phwrpasol i'r dysgwyr medru gweld defnydd y sgiliau yma yn eu bywydau go iawn yn hytrach na'i gweld fel sgiliau sydd yn perthyn i un pwnc yn unig.



Meysydd Dysgu

- Awgryma Donaldson (2015) ei obaith o strwythuro'r cwricwlwm o gwmpas meysydd dysgu er mwyn sicrhau dilyniant ar draws yr ysgol gyfan. Byddai dysgu drwy feysydd dysgu yn galluogi i athrawon wneud cysylltiau mwy amlwg rhwng yr addysgu a fydd yn hybu defnydd effeithiol o addysgu trawsgwricwlaidd.
- Argymhellir Donaldson (2015, tud. 43) y dylid **"disgwyliadau ar gyfer y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a sgiliau ehangach gael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad"** ac maen allweddol bod dysgwr yn gweld pwrpas a manteision sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn eu bywydau.



Ffordd Ymlaen i'r Ysgolion

- Mae'n bwysig bod ysgolion yn mynd ati i sicrhau bod y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn cael eu datblygu a'u hehangu ar draws y cwricwlwm. Awgryma Donaldson (2015) y gellir penodi arweinydd i bob un o'r cyfrifoldebau a byddai hyn yn awgrymiad da i ysgolion er mwyn sicrhau bod yr un statws yn cael ei rhoi i bob un o'r cyfrifoldebau ac i gael arweinydd a fyddai'n medru rhoi cymorth ac arweiniad i'r staff eraill.
- Dywed Estyn (2018) nad yw rhai ysgolion yn monitro effeithiolrwydd dulliau addysgu eu hathrawon sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol y dysgwyr ar draws y cwricwlwm yn ddigonol, felly byddai penodi arweinydd yn sicrhau bod yr athrawon yn medru troi at rywun am gymorth os fyddai angen.
- Allweddol yw hi i sicrhau bod yr ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o gynllunio ac asesu wrth ddatblygu'r cyfrifoldebau yma ar draws y cwricwlwm. Pwysleisia Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013, tud. 5) bod **"cynllunio gofalus yn allweddol; rhaid cael pwrpas i bob gweithgaredd"** felly mae'n allweddol bod athrawon yn mynd ati i gynllunio'n bwrpasol er mwyn i'r cyfrifoldebau gael eu **"cymhwyso mewn ffordd naturiol a dyls yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol"** (Donaldson, 2015, tud. 69).

Dilyn Arfer Da Gogledd Iwerddon

- Byddai dilyn cwricwlwm sy'n seiliedig ar feysydd dysgu yn ein galluogi i ddilyn cwricwlwm tebyg i Ogledd Iwerddon sy'n gosod y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn ganolog i bob un o 6 o'u meysydd dysgu.
- Amlyga'r CEA (2018) bod y cwricwlwm yn pwysleisio trosglwyddo a gweithredu sgiliau cyfathrebu, defnyddio rhif a TGCh yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mae'n ddyletswydd ar athrawon i asesu cynnydd y dysgwyr yn erbyn pob sgil. Dylid annog athrawon Cymru i ddilyn arfer effeithiol fel hwn.

Effeithiolrwydd Gwersi Trawsgwricwlaidd


- Gwelir o'r gweithgareddau enghreifftiol bod dysgu'n drawsgwricwlaidd yn medru plethu nifer o feysydd a chyfrifoldebau â'i gilydd a bod athrawon yn medru targedu nifer o sgiliau o fewn un thema/gweithgaredd.
- O fewn thema neu brosiect gellir hefyd rhoi ffocws ar ADCDF o fewn yr ysgol sydd hefyd yn ddyletswydd bwysig i athrawon ac amlyga APADGOS (2010) bod angen iddo gael ei sefydlu trwy'r cwricwlwm felly byddai dysgu ar draws y cwricwlwm yn wych i dargedu nifer o ofnion y Llywodraeth.

Model 2-Hierarchaidd

- Mae'r ffocws o fewn y model yma ar ddatblygu dealltwriaeth mewn un agwedd wrth addysgu elfennau o agwedd arall hefyd i gyfoethogi dealltwriaeth o'r pwnc.
- Dywed Barnes (2015) mai dyma'r cyd-destun mwyaf cyffredin er mwyn i ddysgu a meddwl trawsgwricwlaidd ddigwydd.

Manteision

- Os nad yw athrawon yn gwbl hapus wrth gyflwyno agweddau o bwnc penodol gellir rhoi'r pwnc gwannach yng nghyd-destun 'Pwnc B' er mwyn cefnogi'r pwnc arall sy'n rhoi fwy o sicrwydd a hyder iddynt wrth ei ddysgu.
- Yn aml gellir rhoi pwnc celfyddydol yn safle Pwnc B. Bydd hyn yn sicrhau bod statws yn cael ei rhoi i'r pynciau yma sy'n aml yn cael eu hanghofio amdanynt mewn cwricwlwm lawn.
- Cyfyngiadau**
- Os nad yw athrawon yn gwbl hapus wrth gyflwyno ac addysgu pwnc penodol ac yn ei rhoi yn safle Pwnc B yna cyfyngu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ystod o ddealltwriaeth am y pwnc yna. Dywed Skelton a Reeves (2010, tud. 158) taw **"Cross-Curricular approaches can help children see the links between subjects but can fail to prepare children with the opportunities to study any subject in depth"**.
- Amlyga Barnes (2015) mai ond ychydig o welliant a ddatblygiad fydd gan ddysgwyr o ran eu sgiliau a'u dealltwriaeth o bwnc B. Bydd dealltwriaeth dysgwyr o ambell bwnc yn wan os nad yw'n cael ffocws manwl.



Gweithgareddau-Thema: 'Ein Milltir Sgwâr

Pwy: Blwyddyn 5

Faint o Amser: Bydd y thema yma yn ymestyn dros sawl wythnos gyda'r gwaith yn datblygu'n wythnosol
Gellir cyflwyno'r thema yma drwy is-benawdau a fydd yn galluogi pynciau amrywiol i berthyn i is-bennawd gwahanol
Atyniadau (Gwelir y sgiliau cwricwlaidd yn y lliw sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm neu fframwaith perthnasol)

Daearyddiaeth

- Gall y disgyblion lunio gwefan i'r pentref yn sôn am yr hyn sydd i'w weld yno a'r newyddion diweddaraf o'r ardal ac mae'n bwysig bod yna **"gyfleoedd i'r disgyblion defnyddio mapiau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol"**.
- Golyga hyn bod parhad i'r gwaith gan fod angen diweddarau ac ychwanegu gwybodaeth i'r gwefan yn barhaus. Bydd disgyblion yn datblygu dealltwriaeth eang wrth gael y cyfle i **"astudio byw yng Nghymru: eu hardal leol"** (LIC, 2008, tud.12).
- Byddai cwblhau gweithgaredd o'r fath yn galluogi dysgwyr i **"weithio gydag eraill i greu prosiect ar-lein ar y cyd at ddiben penodol"** (LIC, 2016). Mae'r prosiect yma hefyd yn berthnasol i'r disgyblion gan fod y gwaith yn perthyn i ardal maent yn deillio ohono ac amlyga Donaldson (2015, tud.17) bod dysgwyr **"am gael gwersi sy'n fwy perthnasol a diddorol, gyda mwy o hwyli a mwy o ryngweithio"**.

Traddodiadau


Hanes + Dylunio a Thechnoleg

- Gellir ymchwilio i hen draddodiadau'r ardal ac ail godi traddodiad yn yr ysgol. Wrth ymchwilio, mae'n siŵr y gellir darganfod bod hen ffair neu ddathliad wedi digwydd yn yr ardal ers slawer dydd a gellir ail-fyw digwyddiad yn yr ysgol.
- Galluogir i'r disgyblion ddatblygu nifer o sgiliau wrth goginio cynhyrchion i werthu ar stondinau yn y ffair megis **"mesur, marcio, torri, siapio, uno, pwyso a chymysgu ystod o ddefnyddiau a chynhwysion"** (LIC, 2008, tud.12) ac mi fydd hyn yn berthnasol i'r byd go iawn a sgiliau fydd angen arnynt tu hwnt i'r ysgol.
- Byddai cynnal digwyddiad o'r fath yn gyfle arbennig i ddatblygu medrau rhifedd y dysgwyr. Byddai ail-fyw'r traddodiad o daflu esgid yn galluogi iddynt **"dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas"** a gallant **"cymharu prisiau a deall beth sy'n cynnig y gwerth gorau am arian"** (LIC, 2014) wrth benderfynu ar bisiau nwyddau ac wrth drin a thrafod arian wrth gwsmeriaid.
- Bydd rhaid i'r dysgwyr hysbysebu'r digwyddiad a gallant lunio poster i ddosbarthu o gwmpas yr ardal ac i'w rhoi ar y gwefan newydd maent wedi'u greu a gallant **"defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol"** (LIC, 2016) i ddenu llygaid y cyhoedd i'r digwyddiad.

Cymeriadau

Hanes + Chelf

- Gellir cyfwrdd â chymeriadau presennol o'r ardal am fywyd y pentref **"er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol"** (LIC, 2008, tud.13). Galluogir iddynt ddefnyddio enghreifftiau o gwestiynau **TACSONOMEG BLOOM**.
- Gallant hefyd **"cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol"** (LIC, 2014) am gymeriadau 'slawer dydd o'r ardal a chreu taflen wybodaeth am fywydau'r bobl sy'n deillio o'r gymuned.
- Gellir hefyd astudio gwaith arlunydd enwog o Gymru megis Aneurin Jones er mwyn **"archwilio ac arbrofi a'r dulliau a ddefnyddiwyd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill o wahanol gyfnodau"** (LIC, 2008, tud.12) er mwyn creu murlun o waith y dysgwyr o'r ardal yn yr ysgol er mwyn dangos i rieni, ac i ddathlu gwaith y disgyblion ar ddiwedd y thema yma.



Gweithgareddau Hierarchaidd

PWNC A: Hanes

Pwy: Blwyddyn 5

- Hanes bydd ffocws y pwnc cryfaf o fewn y model yma gan ganolbwyntio ar 'Yr Ail Ryfel Byd'. Bydd hyn yn cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr am ddigwyddiad hanesyddol allweddol yn y byd a **"deall beth achosodd digwyddiadau penodol a chanlyniadau'r digwyddiadau hynny"** (LIC, 2008, tud.12) wrth hefyd gyfrannu at un o ddibenion Donaldson (2015, tud.29) sef sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu **"yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd"**.
- Gellir defnyddio llyfr fel sbardun a man cychwyn i'r gwaith sef 'Stori'r Ail Ryfel Byd' sy'n cael ei awgrymu fel adnodd da ar gyfer disgyblion hŷn Cyfnod Allweddol 2-byddai hyn yn gyfle i ddysgwyr **"adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt"**.
- Gall y disgyblion gwblhau tasgau darllen a deall er mwyn datblygu eu dealltwriaeth gychwynnol am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y rhyfel ac i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gefndirol er mwyn **"dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau"** (LIC, 2014).
- Mae'r gweithgaredd yma'n ffocysu ar gyfnod penodol o hanes a bydd dysgwyr yn edrych ar wahanol flynyddoedd ac yn **"eguro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol"** (LIC, 2014) wrth esbonio pryd ddigwyddodd digwyddiadau allanol ac wrth ddechongli data ac ystadegau am y nifer o farwolaethau a.y.y.b.

Gellir plethu elfen o Asesu ar gyfer Dysgu i'r cyd-destun yma wrth gael y dysgwyr i gwblhau gridiau GESD (Gwybod, Eisiau, Sut, Dysgu) cyn mynd ati i edrych yn ddyfnach i'r ffocws. Byddai hyn yn fan cychwyn da i'r athrawon wybod a chasglu ymatebion am ddealltwriaeth bresennol y dysgwyr ac er mwyn gwybod beth hoffent ddysgu a fyddai'n gymorth wrth gynllunio - Amlyga Llywodraeth Cymru (2010) pwysigrwydd cael y disgyblion i fyfyririo am sut i gasglu gwybodaeth

PWNC B: Daearyddiaeth

- Er mwyn gwneud y gwaith yn fwy perthnasol i'r disgyblion, gellir cwmpasu elfen leol i'w dealltwriaeth gan ganolbwyntio ar effaith y rhyfel ar y pentref ac ymchwilio i **"sut mae pobl wedi effeithio ar y lle/amgylchedd hwn?"**.
- Gall y disgyblion gynnal ymchwil er mwyn darganfod pwy fu farw o'r pentref a faint o bobl o'r pentref a aeth i fywdro yn y rhyfel. Byddai hyn yn gyfle i'r dysgwyr **"gwrandao ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr"** (LIC, 2014). Mae'n siŵr bod perthnasau rhai o'r bobl yma dal yn byw yn yr ardal a fyddai'n gallu rhannu gwybodaeth gyda'r dysgwyr. Gall y dysgwyr eto defnyddio cwestiynau **Tacsonomeg Bloom** i holi cwestiynau tebyg i hyn: - Allwch chi esbonio neu egluro rhyw faint am fywyd yn ystod y cyfnod yna?
 - Beth yw'r gwahaniaethau rhwng bywyd heddiw a bywyd yn ystod yr ail ryfel byd?
- Gall y disgyblion **"ganfod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau trwy ddefnyddio globau, atlasau a mapiau"** (LIC, 2008, tud.12) wrth amlygu cartrefi'r rhai hynny a aeth i'r rhyfel o'r ardal ar fap o'r pentref.
- Byddai'r gweithgareddau o fewn y pwnc yma'n gwneud eu dealltwriaeth flaenorol o'r wers Hanes yn fwy perthnasol i'w bywydau hwy ac yn atgyfnerthu effaith y rhyfel o'r wybodaeth maent wedi dysgu amdano eisoes.

Penllanw'r Gwaith Trawsgwricwlaidd

- Er mwyn dathlu'r gwaith trawsgwricwlaidd ac i ymfalchio yng nghyfraethiad y dysgwyr yn ystod y darn yma o waith, gellir cynnal gwasaeth i rieni a phentrefwyr yr ardal er mwyn rhannu eu darganfyddiadau ac er mwyn coffau'r rhai hynny o'r pentref bu'n brwydro.
- Byddai modd i'r disgyblion **"creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol"** (LIC, 2016) er mwyn creu ffilm fer yn portreadu bywyd yn y cyfnod yno o'u dealltwriaeth hwy ac i gyflwyno gwybodaeth a dod a'r cyfan yn fwy i'r gynulleidfa mewn modd diddorol ac effeithiol.